


YSGOL DYFFRYN CONWY



Bwletin i Rien - Mawrth 2013



DYDDIADAU PWYSIG

25 Mawrth 2013 - 8 Ebrill 2013

Gwyliau Pasg

Ysgol yn ail agor i'r disgyblion Ebrill 8^{fed}

14 Ebrill 2013

Dyddiad cau opsiynau blwyddyn 9

Adroddiadau Interim Blwyddyn 7 i 9 ar gael wythnos gyntaf ar ôl Pasg.

Adroddiadau llawn Blwyddyn 10 ar gael diwedd tymor.

Adroddiadau llawn Blwyddyn 12 a 13 ar gael wythnos yn dechrau 22/4/13.



Taith i'r Paith

Llongyfarchiadau i Erin Rossington BI12 sydd wedi cael ei dewis yn un o ugain disgybl o'r gogledd a fydd yn ymweld â Phatagonia ym mis Hydref. Profiad byth gofiadwy dwi'n siŵr.

Trip 6ed i Fethesda

un
nos
ola
leuad

Gan ein bod yn astudio'r nofel Un Nos Ola Leuad gan Caradog Pritchard, bu ein dosbarth Cymraeg yn ddigon ffodus i gael mynd ar drip i Fethesda a chael ein tywys o amgylch yr ardal gan Dr J. Elwyn Hughes. Cawsom weld y tŷ lle ganed Caradog Pritchard a lleoliadau pwysig eraill sy'n cael eu crybwyll yn y nofel. Roedd hyn o fudd mawr i ni gan ei fod wedi'n galluogi i greu darlun mwy byw o'r nofel yn ein dychymyg wrth ei darllen a'i hastudio. Cawsom ymweld â Chwarel y Penrhyn a gweld y man lle lladdwyd tad Caradog Pritchard. Gan fod llawer o lenorion enwog yn dod o ardal Bethesda cawsom weld cartrefi rhai ohonynt a'u beddau gan gynnwys R.Williams Parry ac wrth gwrs Caradog Pritchard ei hun. Hoffwn ddiolch ar ran y dosbarth i'r Dr J. Elwyn Hughes am y profiad gwych ac i'n hathrawes Mrs Anna Roberts am drefnu'r trip.

Mared Jones 13W

Ysgol Dyffryn Conwy ar y ffordd i Sir Benfro

Ysgol Dyffryn Conwy ar y ffordd i Sir Benfro - Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd Conwy ar Fawrth 9fed. Nid yn unig mae llu o gystadlu eto, ond Ysgol Dyffryn Conwy a enillodd dlws y Sir am yr ysgol fwyaf llwyddiannus, gwobr nad ydym wedi ei hennill ers oliaf ddegawd! Bydd rhagor o fanylion fis nesaf, ond mae'r canlynol yn barod ar y ffordd i Sir Benfro

Cadi Edwards – Unawd Cerdd Dant
Beca Williams – Unawd Merched
Erin Rossington – Unawd Merched ac Unawd Sioe Gerdd
Rhodri Siôn a Siwan Ellis - Ymgom BI 10-13
Parti Bechgyn BI 7-9



Tomos Arfon, Manon Owen a Leusa Ellis gyda thlws yr Urdd

Diwrnod Adolygu

Cafwyd diwrnod adolygu i flwyddyn 11 yn ddiweddar ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau TGAU. Roedd y disgyblion wedi elwa'n fawr a diolch arbennig i Glwb Rygbi Nant Conwy a chlwb y Guides am eu cefnogaeth i'r diwrnod

Dathliadau Dydd Gŵl Ddewi Eisteddfod Ysgol Anhygoel

Cafwyd cystadlu rhagorol yn ein Eisteddfod ysgol gyda chynulleidfa o 500 a mwy. Cychwynnodd y cystadlu am 9:15 a gorffen ar ben 3:30. Bydd adroddiad llawn o'r Eisteddfod ysgol ar ein gwefan www.ysgoldyffrynconwy.org a diolch arbennig i'r holl noddwyr a disgyblion gwych y chweched dosbarth am drefnu popeth. Mae'n fwriad gennym drefnu noson i ddathlu goreuon yr Eisteddfod yn fuan. Cofiwch archebu tocyn.



Lowri Llwyd Roberts ac Amlyn Layton; Enillwyr y Gadair a'r Goron eleni

SWYDD NEWYDD

Dymunwn ddiolch o galon i Richard Williams sydd wedi bod yn athro blaenllaw yn ein mysg ers deng mlynedd. Arweiniodd yr adran AAA gyda rhyw gadernid tawel a manteisiodd lluo o ddisgyblion ar ei arbenigedd dros y blynyddoedd. Pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd ym Mae Colwyn.

Anghofiwch Man UTD, cefnogwch hogiau blwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Conwy

Ar ôl cychwyn da i'r flwyddyn a 30+ o fechgyn yn ceisio i fod yn rhan o'r tîm mewn nifer o dreialon ym mis Medi roedd yna ddisgwyliad i'r tîm cystadlu yn dda yn Eirias yn erbyn bob ysgol uwchradd y sir.

Yn ystod y gêm gyntaf rheolodd y tîm y gêm yn gyfan gwbl efo Cai Price yn disgleirio yng nghanol y cae ac yn sgorio gôl wych ar ôl symudiad da efo Sam Thomas yn bwydo'r bel i Ifan groesi'n berffaith i Cai sgorio. Dim goliau yn yr ail gêm ond eto'r tîm yn feistr ar y gêm. Roedd yna bwysau mawr wrth fynd i'r gêm olaf y grŵp efo Emrys ap Iwan yn ennill ei ddwy gêm gyntaf. Roedd rhaid ennill. Morgan a Sam Thomas ddaru ysbrydoli'r tîm y tro hon i fuddugoliaeth gyfforddus.

Ar ôl gorffen ar frig ei grŵp yn erbyn Ysgol Eirias, Aberconwy ac Emrys ap Iwan gafodd y tîm y cyfle i chwarae yn y rownd derfynol yn erbyn Ysgol John Bright. Gorffennodd gem agos 0-0 ac aeth y gêm i giciau o'r smotyn. Gwnaeth y tîm amddiffyn yn wych yn ystod y twrnament heb gol yn ei erbyn diolch i arweinyddiaeth gref gan y capten Ynyr a pherfformiadau da gan Owen, Jacob a Tudur. Hyd yma ni chafodd Sam Jones y gôl-geidwad fawr o waith i'w wneud ond efo penalties yn cychwyn dyma oedd ei gyfle i ddisgleirio. Allan o 5 sgoriodd John Bright 0. Cafodd Sam ei gyfle i gyfrannu a gwnaeth yn sicr. Roedd cic lwyddiannus Morgan yn ddigon i'r tîm ennill y gêm ar twrnament ar gyfle i ddweud ' YSGOL DYFFRYN CONWY YDI TÎM GORAU CONWY eleni'.

Da iawn wir a llongyfarchiadau!!



Y sgwad Fuddugol: Sam Jones, Ifan Prys Jones, Tudur Jones, Morgan Owen, Jacob Evans, Penri Metcalfe, Ynyr Roberts, Dion Vaughan, Owen Booth, Sam Thomas, Cai Price



Llongyfarchiadau...



i Dîm Rygbi Hyn yr ysgol, yn fuddugol yn erbyn Ysgol Eirias yng nghwpan Eryri ac yn barod ar gyfer y rownd nesaf. Da iawn hogiau



Cystadleuaeth Nofio



Llwyddodd Lisa Allsup i ennill tair medal aur ac un arian mewn cystadleuaeth nofio gan 'Swim Wales' (Welsh National Championships) a oedd wedi ei noddi gan British Gas yn Abertawe ym mis Ionawr.

Enillodd fedal aur mewn ras 200 medr cefn, 100 medr cefn a 200 medr Individual Medley a medal arian mewn 100 medr pili pala.

Llwyddodd Lisa i gael amseroedd 'personal best' hefyd ymhob un o'r cystadlaethau.